# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 10th May 2016. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.



| | |
|---|---|
| **Councillor:** Matthew J. Dorrance | **Tel/Mobile:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** St. John | **website:** www.matthewdorrance.com |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Labour | **Date:** September, 2016 |



**Section 1: Role & Responsibilities**

I served on these Powys County Council committees [actual attendance/number of meetings held] and working groups:
Powys County Council – 7/8
Place Scrutiny Committee – 1/3

- Dog fouling Working Group
- Civil enforcement Working Group

People Scrutiny Committee (Vice Chair) – 3/4

- As Vice Chair of the Scrutiny Committee I was on all of the sub committees
- Adult Social Care Working Group – Lead Member
- Corporate Services Scrutiny Sub-Committee [Chair]

Brecknockshire – 5/6

I served on the following outside organisations:
Brecon Leisure Centre Consultative Committee – Vice Chairman
Local Education Authority Governor at Priory Church School in Wales
Brecon Beacons National Park Authority/Powys County Council Joint Liaison Committee
Brecknock Museum & Arts Gallery Committee
Affordable Housing Partnership [reserve]

**Section 2: Constituency activity**

Over the last year, I have remained an active Councillor working hard for people across St John Ward and Brecon.

I hold regular advice surgeries at Brecon Library and weekly street surgeries across St John Ward, so that residents get the opportunity to talk to me about any concerns they have.

I have continued to manage a very busy caseload, representing local people and working hard to resolve their issues. I have worked with community organisations across the town to help improve the lives of St John Ward residents.

I held a special drop in session at Brecon Youth Centre for residents who wanted help with responding to the Council's consultation on its plans for Brecon High School. I hold regular *Cuppa with your Councillor* events where I meet with groups of residents to talk about community issues in a more informal setting and I join community volunteers on the first Sunday of each month to litter pick in St John Ward.

I deliver my ward newsletter *The Local Voice* to every house four times a year so that

constituents are kept up to date with my work as their local Councillor.

The last year has been very challenging for the Council and for my community. Continued austerity has allowed the Council to cut services which local people value and depend on. I have challenged the Council about its decisions and campaigned on behalf of St John Ward and Brecon to ensure the community I represent gets the best possible deal.

I have made progress on my campaign to secure the future of Brecon Market. The County Council has agreed to invest in a part time market manager post that the Town Council will oversee – creating a new partnership to secure the future of a local service. This is on top of EU funds being secured to undertake some survey work on the market site. The traders have formed a working group and I have joined their committee meetings to help and support their work.

I have made regular contributions to meetings and debates at County Hall. I have regularly asked questions of the Council's Cabinet, scrutinising their decisions and the impact on my community for example, I have used Council meetings to ask difficult questions about the Council's plans for secondary education on Brecon and the proposed cultural hub.

As a member of the Council's People Scrutiny Committee, I have led the work that looks at how the Council is improving Adult Social Care and its improvement plan following its failings in relation to Domiciliary Care. I have served as Vice Chair of the full People Scrutiny Committee.

**Section 3: Learning & Development**

Budget seminars 1 & 2
Debating skills

I graduated from the Local Government Association Leadership Programme which is a residential course over 3 weekends and is accredited by the ILM.

**Section 4: Outside organisations and other activities**

Local Authority Member of Powys Teaching Health Board
Secretary of the St John Family Centre Local Management Committee
Chair of Priory Pre-School Flying Start

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 10 Mai, 2016.  Fe'i darperir er gwybodaeth i holl drigolion Powys ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Matthew J. Dorrance | **Ffôn:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** Sant Ioan | **Gwefan:** www.matthewdorrance.com |
| **Ardal:** Sir Frycheiniog | **E-bost:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Llafur Cymru | **Dyddiad:** Medi, 2016 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Gwasanaethais ar y pwyllgorau a'r gweithgorau hyn o Gyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol / nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd] :
Cyngor Sir Powys – 7/8
Pwyllgor Craffu Lle – 1/3

- Gweithgor Cŵn yn Baeddu
- Gweithgor Gorfodi Sifil

Pwyllgor Craffu Pobl (Is-gadeirydd) – 3/4

- Fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu, roeddwn ar bob un o’r Is-bwyllgorau
- Gweithgor Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Aelod Arweiniol
- Is-bwyllgor craffu Gwasanaethau Corfforaethol [Cadeirydd]

Sir Frycheiniog – 5/6

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Pwyllgor Ymgynghorol Canolfan Hamdden Aberhonddu – Is-gadeirydd
Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy
Cyd-bwyllgor Cyswllt Cyngor Sir Powys/Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Partneriaeth Tai Fforddiadwy [wrth gefn]

**Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi parhau i fod yn Gynghorydd gweithgar gan weithio’n ddiwyd ar ran pobl Ward Sant Ioan ac Aberhonddu.

Rwy’n cynnal cymorthfeydd cynghori yn rheolaidd yn Llyfrgell Aberhonddu ac yn cynnal cymorthfeydd stryd bob wythnos ar draws Ward Sant Ioan, fel y gall trigolion gael y cyfle i siarad â mi am unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Rwyf wedi parhau i reoli llwyth achosion prysur iawn, gan gynrychioli pobl leol a gweithio’n galed i ddatrys eu problemau.  Rwyf wedi gweithio gyda mudiadau cymunedol ar draws y dref i helpu i wella bywydau trigolion Ward Sant Ioan.

Rwyf wedi cynnal sesiwn galw heibio arbennig yng Nghanolfan Ieuenctid Aberhonddu i

drigolion oedd eisiau helpu gydag ymateb i ymgynghoriad y Cyngor ar ei gynlluniau ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Rwy'n cynnal digwyddiadau *Paned gyda'ch Cynghorydd* rheolaidd lle byddaf yn cwrdd â grwpiau o drigolion i siarad am faterion cymunedol mewn lle mwy anffurfiol ac rwy'n ymuno gyda gwirfoddolwyr cymunedol ar ddydd Sul cyntaf pob mis i godi sbwriel yn Ward Sant Ioan.

Rwy'n dosbarthu fy nghylchlythyr "Local Voice" i bob tŷ bedair gwaith y flwyddyn i ddiweddaru trigolion gyda'm gwaith fel eu Cynghorydd lleol.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn i'r Cyngor ac i'm cymuned. Mae cynni ariannol parhaus wedi caniatáu i'r Cyngor dorri gwasanaethau y mae pobl leol yn eu gwerthfawrogi ac yn dibynnu arnynt. Rwyf wedi herio'r Cyngor am ei benderfyniadau ac wedi ymgyrchu ar ran ward Sant Ioan ac Aberhonddu i sicrhau fod y gymuned a gynrychiolaf yn cael ei fargen orau posibl.

Rwyf wedi gwneud cynnydd ar fy ymgyrch i sicrhau dyfodol Marchnad Aberhonddu. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i fuddsoddi mewn swydd rheolwr marchnad rhan amser y bydd Cyngor y Dref yn ei oruchwylio – gan greu partneriaeth newydd i sicrhau dyfodol gwasanaeth lleol. Mae hyn yn ychwanegol at sicrhau cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynnal ychydig o waith arolygu ar safle'r farchnad. Mae'r masnachwyr wedi ffurfio gweithgor ac rwyf wedi ymuno yn eu cyfarfodydd pwyllgor i helpu ac i gefnogi eu gwaith.

Rwyf wedi gwneud cyfraniadau rheolaidd i gyfarfodydd a thrafodaethau yn Neuadd y Sir. Rwy wedi cyflwyno cwestiynau rheolaidd i Gabinet y Cyngor, wedi craffu ar eu penderfyniadau a'u heffaith ar fy nghymuned, er enghraifft, rwyf wedi defnyddio cyfarfodydd y Cyngor i ofyn cwestiynau anodd am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer addysg uwchradd yn Aberhonddu a'r ganolfan ddiwylliannol arfaethedig.

Fel aelod o Bwyllgor Craffu Pobl y Cyngor, rwyf wedi arwain ar waith sy'n edrych ar sut mae'r Cyngor yn gwella Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'i gynllun gwella yn dilyn ei fethiannau o ran Gofal yn y Cartref. Rwyf wedi gwasanaethu fel Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Craffu Pobl llawn.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu**

Seminarau'r Gyllideb 1 & 2
Sgiliau trafod

Rwyf wedi graddio oddi ar Raglen Arweinyddiaeth y Gymdeithas Llywodraeth Leol sy'n gwrs preswyl dros 3 penwythnos ac wedi'i achredu gan yr ILM.

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Aelod Awdurdod Lleol o Fwrdd Iechyd addysgu Powys
Ysgrifennydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Deulu Leol Sant Ioan
Cadeirydd Dechrau'n Deg Cyn-oed Ysgol Priordy
.